**Y Gwir Anrh/Rt Hon Eluned Morgan AS/MS**
**Prif Weinidog Cymru/First Minister of Wales**

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Ein cyf/Our ref: PO/FM/0010/25

Delyth Jewell AS
Cadeirydd
Y Pwyllgor Diwylliant, Cyfathrebu, y Gymraeg, Chwaraeon
a Chysylltiadau Rhyngwladol
Senedd Cymru
Bae Caerdydd
Caerdydd
CF99 1SN

13 Ionawr 2026

Annwyl Delyth,

Ar 7 ac 8 Ionawr 2026, llofnodais femoranda cyd-ddealltwriaeth gyda phriod lywodraethau Catalwnia a Gwlad y Basg. Llofnodwyd y cytundebau yn dilyn cyfarfodydd ag Arlywydd Catalwnia, MH Salvador Illa, yn Barcelona a Lehendakari Gwlad y Basg, Imanol Pradales, yn Vitoria-Gasteiz.

Yn unol â'n protocol cytunedig, rwy'n ysgrifennu i roi gwybod i chi am fanylion y cytundebau hynny a sut y byddant yn gwella ein perthynas â'r ddau ranbarth.

Mae'r berthynas rhwng Cymru a Chatalwnia yn un hirsefydlog ac, ers blynyddoedd lawer, bu galwadau i adnewyddu'r cytundeb dwyochrog a arferai fod ar waith. Mae'r cytundeb hwn yn ffurfioli ein hymrwymiad i'r berthynas hon rhwng Llywodraeth Cymru a llywodraeth Catalwnia.

Bydd Memorandwm Cyd-ddealltwriaeth Cymru a Chatalwnia yn cefnogi cydweithredu ar draws ystod eang o flaenoriaethau a rennir, gan gynnwys:

- Cydraddoldeb, rhywedd, hawliau dynol ac ymgysylltu â'r gymuned
- Iaith a hyrwyddo a chyfnewid diwylliannol
- Twristiaeth gynaliadwy a chyfrifol
- Arloesi, gyda ffocws ar led-ddargludyddion, seiberddiogelwch a deallusrwydd artiffisial (AI)
- Datblygu cynaliadwy, gan gynnwys niwtraliaeth hinsawdd ac ynni adnewyddadwy
- Addysg, gyda phwyslais arbennig ar hyrwyddo cyfnewidiadau rhwng pobl ifanc

Bae Caerdydd • Cardiff Bay
Caerdydd • Cardiff
CF99 1SN

Canolfan Cyswllt Cyntaf / First Point of Contact Centre:
0300 0604400
Gohebiaeth.Eluned.Morgan@llyw.cymru
Correspondence.Eluned.Morgan@gov.wales

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.

Mae Cynllun Gweithredu pedair blynedd i gefnogi'r cytundeb. Mae'r Cynllun Gweithredu yn blaenoriaethu cynnydd cymdeithasol, gan gynnwys cydweithredu ar ieithoedd, cyfnewid diwylliannol ac ymgysylltu ar y cyd mewn sefydliadau amlochrog. Mae hefyd yn pwysleisio arloesi, gyda chydweithredu ar dechnoleg, AI, seiberddiogelwch ac ymchwil - ochr yn ochr â gwaith ar y cyd ar led-ddargludyddion cyfansawdd.

Gan edrych ymlaen, mae'n hyrwyddo datblygu cynaliadwy, niwtraliaeth hinsawdd, cyfnewid addysg alwedigaethol a chydweithrediad masnach ehangach rhwng Catalwnia a Chymru.

Mae'r Memorandwm Cyd-ddealltwriaeth hwn ar ei newydd wedd yn darparu llwyfan cadarn i gryfhau cydweithrediad mewn meysydd lle mae Cymru a Chatalwnia yn rhannu uchelgeisiau clir, hirdymor, o gynnydd cymdeithasol a chyfnewid diwylliannol i arloesi a pholisïau sy'n canolbwyntio ar y dyfodol. Mae'r Cynllun Gweithredu yn nodi gwaith pendant ar ieithoedd, diwylliant, symudedd ieuenctid, cynaliadwyedd ac ymgysylltu amlochrog, gan sicrhau bod ein cydweithrediad yn ymarferol ac yn canolbwyntio ar bobl.

Mae gan Gymru a Chatalwnia gryfderau gwirioneddol mewn technolegau uwch, gan gynnwys lled-ddargludyddion cyfansawdd, technolegau symudedd, deallusrwydd artiffisial a seiberddiogelwch. Trwy rwydweithiau rhyngwladol presennol a'n perthynas ddwyochrog ein hunain, mae cyfle mawr i alinio ein hecosystemau ymchwil, cefnogi prosiectau ar y cyd a lleoli ein rhanbarthau fel arweinwyr Ewropeaidd mewn technolegau sy'n dod i'r amlwg.

Mae'r ddwy lywodraeth wedi ymrwymo i niwtraliaeth hinsawdd, datblygu ynni adnewyddadwy a modelau economaidd cynaliadwy. Bydd y Cynllun Gweithredu yn dyfnhau cydweithredu ar hydrogen gwyrdd, cynaliadwyedd trefol, rheoli adnoddau naturiol a datblygu sgiliau ar gyfer y trawsnewid gwyrdd.

Mae gan Gymru a Gwlad y Basg gysylltiadau sy'n seiliedig ar dreftadaeth ddiwydiannol a chysylltiadau hirsefydlog ar lefel lywodraethol a sefydliadol. Mae cyfleoedd economaidd, dysgu, iechyd a diwylliannol clir i Gymru o gydweithredu.

Drwy ddewis Cymru fel yr unig ranbarth blaenoriaeth newydd yn ei Strategaeth Ryngwladoli (2018-20), dangosodd Gwlad y Basg awydd am berthynas waith agosach â Chymru, buddiannau sy'n cyd-fynd a thystiolaeth o dwf ein gweithgarwch a'n proffil rhyngwladol.

Bydd y cytundeb ar ei newydd wedd rhwng Cymru a Gwlad y Basg yn darparu fframwaith ar gyfer cydweithredu ar draws ystod eang o sectorau, gan gynnwys:

- Symudedd a thrafnidiaeth gynaliadwy
- Ynni adnewyddadwy a newid hinsawdd
- Technoleg ac arloesi
- Y diwydiant bwyd-amaeth
- Addysg
- Strategaeth a pholisi cyllidol, gan gynnwys gweinyddu trethi a rheoli cyllideb
- Polisi cymdeithasol
- Iechyd
- Diwylliant ac iaith

Mae Cymru'n gwerthfawrogi'n fawr ei pherthynas hirsefydlog â Gwlad y Basg, sy'n seiliedig ar hunaniaeth, diwylliant a gwerthoedd a rennir. Mae'r Memorandwm Cyd-ddealltwriaeth newydd yn gyfle pwysig i atgyfnerthu'r bartneriaeth hon ac ehangu cydweithrediad ar draws amrywiaeth o feysydd.

Fel bob amser, dim ond rhan o'r stori yw'r cytundebau ffurfiol hyn. Y tu hwnt i gysylltiadau ffurfiol, mae'r bartneriaeth rhwng Clwb Pêl-droed Casnewydd a Chlwb Athletau Bilbao yn adlewyrchu hanes a rennir o sefyll mewn undod sy'n dyddio'n ôl i 1937, pan groesawyd 56 o blant Gwlad y Basg a oedd yn ffoi rhag Rhyfel Cartref Sbaen i Gasnewydd. Y tymor hwn, mae cit oddi cartref Casnewydd yn cymryd lliwiau coch a gwyn Bilbao fel teyrnged i blant Gwlad y Basg '37, gyda'u henwau a manylion symbolaidd Basgaidd Cymreig wedi'u gweu i'r dyluniad. Mae'r cydweithrediad yn dangos sut y gall chwaraeon anrhydeddu treftadaeth a rennir wrth gryfhau hunaniaeth gymunedol a chysylltiad diwylliannol rhwng Cymru a Gwlad y Basg.

Hoffwn ddiolch i'r Pwyllgor am eich cefnogaeth a'ch diddordeb parhaus yn ein cysylltiadau rhyngwladol. Er bod gennym nifer o gytundebau ar waith erbyn hyn, mae pob un ohonynt yn canolbwyntio ar gydweithredu a chyflawni.

Rydym wedi gweithio gyda phriod lywodraethau Catalwnia a Gwlad y Basg i ddatblygu cytundebau gyda chynnwys ac mewn fformat sy'n dderbyniol i bawb. Fel yr ydym wedi nodi o'r blaen, nid yw 'dull templed' ar gyfer y cytundebau hyn bob amser y dull mwyaf priodol. Rwy'n falch ein bod wedi gallu datblygu'r cytundebau hyn mewn ffordd sy'n parchu blaenoriaethau a ffyrdd o weithio'r ddwy lywodraeth.

Fel y nodwyd mewn llythyr blaenorol at y Pwyllgor ar 7 Rhagfyr 2022, nid ydym yn cyhoeddi manylion llawn y cytundebau ac, ar gais y Pwyllgor, rydym wedi sefydlu tudalen ar y we sy'n crynhoi pob cytundeb yn lle hynny.

Yn gywir,

**Eluned Morgan**